

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL: BIL CYMRU

Y cefndir

01. Cyflwynwyd Bil Cymru ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 7 Mehefin 2016. Cwblhawyd gwaith craffu'r pwyllgor yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 23 Tachwedd.

02. Gosododd Llywodraeth Cymru Femorandwm rhagarweiniol ar y Bil gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ar 5 Gorffennaf 2016. Roedd yn crynhoi prif ddarpariaethau'r Bil. Roedd y Memorandwm rhagarweiniol yn dod i'r casgliad a ganlyn:

"Mae llawer o waith i'w wneud ar y Bil yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Bydd Llywodraeth Cymru'n dadlau o blaid gwelliannau sylweddol i wella neu ddiogelu cymhwysedd presennol y Cynulliad, yn ogystal â newidiadau technegol i wella cydlyniaeth ac effeithiolrwydd y Bil."¹

03. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch Bil Cymru ar 21 Tachwedd 2016. Cafodd ei gyfeirio at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ("y Pwyllgor") gan y Pwyllgor Busnes ar 22 Tachwedd 2016, gan bennu terfyn amser ar gyfer cyflwyno adroddiad erbyn dydd Iau 12 Ionawr 2017.

04. Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ofynnol gan fod darpariaethau ym Mil Cymru Llywodraeth y DU yn addasu neu'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

05. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn datgan bod y darpariaethau sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys:

- Cymal 3 ac Atodlenni 1 a 2: Cymhwysedd deddfwriaethol ac Atodlenni newydd 7A a 7B;
- Cymal 4 ac Atodlen 3: awdurdodau cyhoeddus Cymru;
- Cymal 9: Y gofyniad am uwch-fwyafrif ar gyfer rhai darnau o ddeddfwriaeth;

¹ Memorandwm rhagarweiniol, paragraff 34



– Cymal 46: Ymyrryd os bydd effaith niweidiol difrifol ar wasanaethau carthffosiaeth etc.²

06. Mae'n ychwanegu fod y darpariaethau sy'n gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnwys:

– Cymal 6: Amseriad etholiadau;

– Cymal 13: Rheolaeth ariannol, cyfrifon ac archwilio;

– Cymal 29: Trosglwyddo swyddogaethau gweithredol;

– Cymal 49: Darparu gwybodaeth i'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.³

07. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn nodi y bydd Prif Weinidog Cymru yn gosod Memorandwm Atodol yn cadarnhau safbwynt Llywodraeth Cymru — ac a ddylai gefnogi rhoi cydsyniad i'r Bil — pan fydd eglurder ar y fframwaith cyllidol ac unrhyw welliannau pellach i'r Bil yn y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.⁴

Ystyriaethau

08. Rydym yn fodlon bod y materion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn faterion sy'n gofyn am gydsyniad o dan Reol Sefydlog 29.

09. Yn ein hadroddiad ar Fil Cymru a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2016, mynegwyd pryder ei bod yn anodd amlinellu'r lle y mae'r Bil yn ei ddarparu i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i ddeddfu a bod y lle hwn o bosibl yn llai nag sydd ar gael ar hyn o bryd. Wrth wneud hynny, roeddem yn nodi'r ffordd gymhleth o fynegi cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, gan gynnwys nifer a maint y cymalau cadw a'r cyfyngiadau.

10. O ganlyniad, roedd ein hadroddiad yn argymhell gwelliannau posibl yr oeddem yn credu y byddent yn gwella'r Bil, a awgrymwyd gan y Llywydd neu'r Prif Weinidog neu a ddatblygwyd gan y Pwyllgor. Roedd yr argymhellion hyn yn seiliedig ar dystiolaeth academyddion a rhanddeiliaid sydd â phrofiad ymarferol dydd i ddydd o weithio o dan y setliad datganoli presennol.

² Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 53

³ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraff 54

⁴ Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, paragraffau 9 a 57



11. Rydym felly'n gresynu nad oes camau wedi'u cymryd hyd yn hyn i fynd i'r afael â'r materion o sylwedd a nodwyd gennym.
12. Rydym yn cydnabod bod rhai newidiadau cadarnhaol wedi'u gwneud i'r Bil, gydag ymrwymadau i gyflwyno rhagor o welliannau yn y cyfnod adrodd yn Nhŷ'r Arglwyddi.
13. Er ein bod yn croesawu hyn, nid ydynt yn datrys y problemau sylfaenol yr ydym wedi'u nodi yn y Bil sy'n debygol o achosi anawsterau i allu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud cyfraith gydlynol a hygyrch i ddinasyddion Cymru.
14. Rydym yn parhau i fod o'r farn bod Bil Cymru, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn gymhleth ac yn annealladwy. Ni fydd yn cynnig y setliad parhaol a chadarn y mae pawb yn awyddus i'w weld.
15. Er gwaethaf ein hamheumon am y Bil, rydym yn cytuno â'r Prif Weinidog y byddai'n amhriodol rhoi barn ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad y Cynulliad Cenedlaethol i'r Bil nes bod eglurder ar y fframwaith cyllidol, a bod Llywodraeth y DU wedi manteisio ar y cyfle pellach drwy'r cyfnod adrodd i ateb ein pryderon. Mae Pwyllgor Cyfansoddiad a Phwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi wedi ategu llawer o'r pryderon hyn, yn ogystal â'r Arglwyddi wrth graffu ar y Bil yn ystod y Cyfnod Pwyllgor.
16. O ganlyniad i'r ffaith bod yr amserlen ar gyfer craffu ar Fil cyfansoddiadol yn gyfyngedig, mae'n anffodus na fyddwn efallai'n cael y cyfle i graffu ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol a gyflwynir gan Lywodraeth Cymru. Os bydd y sefyllfa hon yn codi, bydd yn fater i'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu a ddylid cytuno i roi cydsyniad heb adroddiad cyfatebol gan y Pwyllgor.

